

1) A ydych chi'n berchen ar gartref sydd wedi bod yn wag am yn hir neu ail gartref yng Ngheredigion (yn ôl y diffiniad sydd yn nogfen gefndir yr ymgynghoriad)?

Nac ydw

2) I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r syniad o godi tâl ychwanegol ar ben Treth y Cyngor ar gyfer tai sydd wedi bod yn wag am yn hir neu ail gartrefi yng Ngheredigion? (Ticiwch un yn unig)

Cytuno'n gryf

3) Nodwch ar ba lefel ydych chi'n credu y byddai'n fwyaf priodol gosod tal ychwanegol ar Dreth y Cyngor ar gyfer tai sydd wedi bod yn wag am yn hir neu ail gartrefi yng Ngheredigion. (Ticiwch un yn unig)

100%

Arall – nodwch hyd at uchafswm o 100%

4) Yn eich barn chi, petai tâl ychwanegol yn cael ei godi ar Dreth y Cyngor ar gyfer tai sydd wedi bod yn wag am yn hir neu ail gartrefi yng Ngheredigion, beth fyddai effaith hynny ar yr economi lleol ac ar dwristiaeth? (Ticiwch un yn unig)

Cadarnhaol

5) Os ateboch chi 'Negyddol', dywedwch pam a sut y gellid lleihau'r effaith.

Byddai lleihau'r nifer o dai gwag yn golygu bod mwy o bobl yn byw yn yr ardal, a fyddai'n cael effaith gadarnhaol ar yr economi. Byddai treth ychwanegol ar ail dai hefyd yn golygu mwy o arian ar gyfer gwasanaethau lleol.

6) Yn eich barn chi, petai tâl ychwanegol yn cael ei godi ar Dreth y Cyngor ar gyfer tai sydd wedi bod yn wag am yn hir neu ail gartrefi, beth fyddai effaith hynny ar nifer y tai rhentu preifat sydd ar gael? (Ticiwch un yn unig)

Cynnydd yn gyffredinol

7) Sylwadau ynglŷn ag unrhyw effeithiau posibl ar nifer y tai rhentu preifat

Byddai'n anogaeth i berchnogion tai gwag eu rhentu. Byddai felly yn rhyddhau tai yn lleol, a dylai arwain at ostwng prisiau rhent yn gyffredinol.

8) Yn eich barn chi, petai tâl ychwanegol yn cael ei godi ar Dreth y Cyngor ar gyfer tai sydd wedi bod yn wag am yn hir neu ail gartrefi, beth fyddai effaith hynny ar brisiau tai yng Ngheredigion? (Ticiwch un yn unig)

Lleihad yn gyffredinol

9) Sylwadau ynglŷn ag unrhyw effeithiau posibl ar brisiau tai yng Ngheredigion

Mae'r math o dai sydd yn ail dai yn amrywio ond gallai'r dreth ychwanegol annog perchnogion i werthu tai fyddai'n addas ac yn gyraeddadwy i bobl leol.

10) Yn eich barn chi, petai tâl ychwanegol yn cael ei godi ar Dreth y Cyngor ar gyfer tai sydd wedi bod yn wag am yn hir neu ail gartrefi, beth fyddai effaith hynny ar nifer y tai fforddiadwy yng Ngheredigion ? (Ticiwch un yn unig)

Cadarnhaol

Niwtral

Negyddol

11) Os ateboch chi 'Negyddol', dywedwch pam a sut y gellid lleihau'r effaith.

Mae tai gwag ac ail dai yn gallu amrywio. Petai'r Cyngor neu Gymdeithas Tai yn prynu tai gwag a'u hadfer fel tai fforddiadwy byddai hynny'n cael effaith gadarnhaol ar niferoedd y tai fforddiadwy.

12) Sylwadau ynglŷn ag unrhyw effeithiau posibl ar brisiau tai yng Ngheredigion

Mae cyfartaledd pris tai yng Ngheredigion gyda'r uchaf yng Nghymru, mae nifer o bentrefi sydd yn wag ran helaeth y flwyddyn tra bod pobl ifanc yn methu prynu tŷ oherwydd prisiau neu argaeledd. Byddai mwy o dai yn golygu y dylai pris tai ddisgyn.